

## CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Llandysul, ar 12fed Medi 2016**

**Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Llandysul Youth Centre, on 12<sup>th</sup> September 2016**

**Yn Bresennol/Present:**

Cyng/Cllrs Keith Evans, Tom Cowcher, Eileen Curry, Beth Davies, Douglas Davies, Terry Griffiths, Andrew Howell, Gethin Jones, Carolyn Reed-Rees, Abby Reid a Chyngorydd Sir Peter Davies

Roedd Elen Granthan, Swyddog Galluogi Tai, yn bresennol yn y cyfarfod er mwyn rhoi diweddariad i'r Cynghorwyr am y tai y maent yn gobeithio'u hadeiladu yn Llandysul. Esboniodd eu bod yn canolbwytio'u hymdreichion ar safle arall ar hyn o bryd, gan nad yw'r angen am dai yn Llandysul mor fawr. Anogodd y Cynghorwyr i ofyn i bobl gofnodi eu henwau ar y rhestrau tai os ydynt yn chwilio am dŷ. Seilir yr holl benderfyniadau ar yr angen mwyaf ac ar dystiolaeth. Esboniodd hefyd bod hon yn ffordd wych i bobl leol ar incwm is i ymuno â'r farchnad dai.

Housing Enabler Elen Grantham was present at the meeting to update the Councillors on the houses they hope to build in Llandysul. She explained that at the moment they were concentrating their efforts on another site as the need for housing in Llandysul isn't so great. She urged the Councillors to ask people to put their names on the housing lists if they are looking for houses. All decisions are based on greater the need and all is evidence set. She aslo explained that this way it was ideal for local people with lower income to start on the housing ladder.

Roedd PCSO Shan Davies yn bresennol yn y cyfarfod. Yn dilyn y cyfarfod diwethaf, hysbysodd y cyfarfod o ganlyniad arestiadau amrywiol a wnaethpwyd dros y misoedd blaenorol

- 1 achos o Ddifrod Troseddol yn y Stryd Fawr pan oedd rhywun wedi neidio dros ben ceir wedi'u parcio – nodwyd yr unigolyn cyfrifol ond mae'r broses yn parhau
- Lladrad o Spar Llandysul – arestiwyd unigolyn ond nid yw'n rhywun lleol – gofynnwyd iddynt dalu am y botel ac fe'u gwaharddwyd o'r siop.
- Gyrru dan ddyylanwad cyffuriau – gwaharddiad am flwyddyn a gorchymyn cymunedol
- Difrod i Dŷ Bradford – rhaid i'r unigolyn dalu am y difrod.
- Y bwriad i ddefnyddio beic modur gyda gwn mesur cyflymder yn y pentref – roedd hyn wedi digwydd yn ystod yr haf.  
Gorffennaf ac Awst
- 1 achos o ddifrod Troseddol yn Rhyllewis
- 1 galwad am ymddygiad gwrthgymdeithasol

Ar hyn o bryd, mae cynllun cymunedol cadw llygad ar gyflymder yn mynd yn ei flaen ac mae ffurflenni'r gwirfoddolwyr yn cael eu fetio.

PCSO Shan Davies was present at the meeting Following the last meeting she addressed the meeting on outcome of various arrests made in the previous months

- 1 incident of Criminal Damage in the High Street when someone had jumped over parked cars - person had been identified but still ongoing

- Theft in Spar Llandysul – arrest made but not a local person – person asked to pay for the bottle and banned from the shop.
- Driving under the influence of drugs – 1 year disqualification and community order
- Damage to Bradford House – person has to pay back for the damage.
- The intention of bringing a speed gun bike to the village – this had happened over the summer.

July and August

- 1 incident of Criminal damage in Rhydlewis
- 1 call of anti social driving

At the moment the community speed watch is going ahead with forms of the volunteers being veted.

- 1 **Ymddiheuriadau/Apologies** Cafwyd ymddiheuriadau gan Gyng Roy Davies, Aled Jones a Chyng Sir Peter Evans ac wrth Gyng Tom Cowcher ac Eileen Curry a fyddai'n cyrraedd yn hwyrach /Apologies for absence was received from Cllrs Roy Davies, Aled Jones and County Cllr Peter Evans and from Cllrs Tom Cowcher and Eileen Curry who would be late.
- 2 **Datgelu Buddiannau/Declarations of Interest** Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau / There were no declarations of interest.
- 3 **Cofnodion/Minutes** Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 11eg Gorffennaf 2016 yn gywir, ac fe'u llofnodwyd ar ôl nodi bod rhywfaint o'r testun ar goll o'r cyfieithiad Cymraeg yn dilyn problemau wrth eu hargraffu. Penderfynwyd y dylai'r clerc a'r cyfieithydd sierhau bod eu systemau'n gweithio gyda'i gilydd er mwyn osgoi'r broblem hon yn y dyfodol / Minutes of monthly meeting held on 11<sup>th</sup> July was accepted as correct and signed following noting that there was some text missing from the welsh translation following problems with printing. It was decided that the clerk and translator make sure that their systems work together to avoid this problem in the future.

## **Materion yn Codi:-**

**Goleuadau Nadolig** – Penderfynwyd y dylai'r Clerc archebu goleuadau wrth Festive Lighting a rhoi cyfarwyddyd i Derwen Lighting i archebu'r bylbiau a gosod y goleuadau newydd.

**Hysbysfwrdd** – Penderfynwyd rhoi cyfarwyddyd i Mark Wilson drwsio'r Hysbysfwrdd ym Maesymillion yn hytrach na phrynu un newydd.

**Arwyddion yn y Parc** – Penderfynwyd y dylai Cyng Abbey Reid archebu'r arwyddion ar gyfer y parc gan MD Signs.

**Diffibrilwyr** Hysbyswyd y cyfarfod gan Gyng Gethin Jones y byddai modd gosod y diffibrilwyr y tu allan i'r neuadd ym Mhont-siân a thu allan i'r siop yng Nghapel Dewi o bosibl.

## **Gardd Goffa**

Penderfynwyd y dylai Cyng Gethin Jones holi beth sydd wedi digwydd i'r ardd goffa a oedd yn Ysgol Dyffryn Teifi er cof am gyn-ddisgyblion.

**Llyfrgell Llandysul** Penderfynwyd y byddai Cyng Sir Peter Davies yn ymateb i'r Cyngor Sir yng Nghylch llyfrgell Llandysul ar ran y Cyngor Cymuned.

## **Materion y Mae Angen Gwneud Penderfyniad Amdanynt**

### **4) Ceisiadau Ariannol:-Dim**

### **5) Materion i'w trafod**

**Sedd Wag ar gyfer Llandysul** Penderfynwyd y dylai'r cleric gysylltu â'r Cyngor Sir i hysbysebu'r sedd wag am Gynghorydd newydd ar gyfer Ward Llandysul.

## **Parc Coffa.**

Diolchodd y Cadeirydd, Beth Davies, i bawb am fynychu'r gwasanaeth yn y Parc Coffa er mwyn dadorchuddio'r plac Coffa.

## **Ymgynghoriad Amgylchedd Hanesyddol**

Yn dilyn trafodaeth, atebwyd holl gwestiynau'r holiadur a bydd y cleric yn ymateb.

## **Ymgynghoriad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

Cafwyd e-bost gan Gomisiynydd TroSEDdu Dyfed Powys yng Nghylch yr Ymgynghoriad am y Cynllun Heddlu a Throseddu. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd y dylai'r cleric ymateb trwy gyfleo safbwytiau'r Cyngorwyr.

**Cau Ysgolion** Adroddwyd bod ysgolion Dyffryn Teifi, Pont-siân, Coed-y-brynn ac Aber-banc ar werth nawr. Adroddwyd bod y cam o werthu ysgol Dyffryn Teifi mewn arwerthiant cyhoeddus wedi cael ei oedi er mwyn rhoi amser i grŵp lleol

## **Matters Arising:-**

**Christmas Lights**– It was decided that the Clerk order lights from Festive Lighting and instruct Derwen Lighting to order the bulbs and installation.

**Notice Board** – It was decided to instruct Mark Wilson to repair the Notice Board in Maesymillion rather than buy a new one.

**Notices in Park** – It was decided that Cllr Abbey Reid order the notices for the park from MD Signs.

**Defibrillators** Cllr Gethin Jones informed the meeting that the defibrillators could be placed outside the hall in Pontsian and possibly outside the shop in Capel Dewi.

## **Memorial Garden**

It was decided that Cllr Gethin Jones find out what had happened to the memorial garden that was in Dyffryn Teifi School in memory of previous pupils.

**Llandysul Library** It was decided that County Cllr Peter Davies respond to the County Council regarding Llandysul library on behalf of the Community Council.

## **Matters Requiring Decisions**

### **4) Funding Applications:-None**

### **5) Matters for discussion**

**Llandysul Vacancy** It was decided that the clerk contact the County Council to advertise the vacancy for a new Councillor for the Llandysul Ward.

## **Memorial Park .**

Chariman Beth Davies thanked all for attending the service at the Memorial Park to unveil the Remembrance plaque.

## **Consultation Historical Environment**

Following a discussion all questions on the questionnaires were answered the clerk to respond.

## **Police Crime Commissioner Consultation**

An email had been received asking from Dyfed Powys Crime Commissioner regarding the Police and Crime Plan Consultation. Following a discussion it was decided that the clerk respond with the Councillors views.

**School Closures** It was reported that Dyffryn Teifi, Pontsian, Coedybrynn and Aberbanc schools were now for sale. It was reported that selling Dyffryn Teifi school by public auction was now on hold until a local group could have

ddarganfod a fyddai modd iddynt brynu'r campws.

**Gwobr y Gymuned** Penderfynwyd y dylai'r clericosbarthu copi electronig i'r holl Gynghorwyr, ac fe'u hatgoffwyd o'r ffaith bod angen cyflwyno'r holl enwebiadau erbyn y cyfarfod nesaf ym mis Hydref.

### Materion Wardiau

**Pren-gwyn** – Esboniodd Cyngor Sir Peter Davies bod aelod o'r gymuned wedi cysylltu ag ef a'i bod yn dymuno ailenwi tŷ ym Mhren-gwyn, Penpwmp, a'i bod yn gofyn am ganiatâd i symud y pwmp dŵr sydd wedi'i leoli ar y groesffordd yn ôl i'r tŷ yr oedd wedi dod ohono'n wreiddiol. Penderfynwyd mai mater i'r Cyngor Sir yw hwn, ac y byddai Cyngor Peter Davies yn ysgrifennu at y bobl berthnasol.

**Pont-siân/Capel Dewi** – Esboniodd Cyngor Sir o Gapel Dewi y byddent yn cynnal cyfarfod cyhoeddus gyda Dŵr Cymru ddydd Iau ynghylch y cam o gau'r ffordd dros fisoeedd yr haf yng Nghapel Dewi. Esboniwyd hefyd bod nifer o gwynion wedi cael eu gwneud ynghylch cloddiau llawn tyfiant gyferbyn â Bro Marlais ym Mhont-siân ac mewn safleoedd amrywiol yng Nghapel Dewi. Bydd y cleric yn ysgrifennu at y Cyngor Sir.

Penderfynwyd hefyd y dylai'r cleric yn ysgrifennu at y Cyngor Sir yn gofyn i'r cam o gynnwys cilfachau parcio gael ei ystyried yn fwy wrth ddylunio ffyrdd cyswllt newydd, gan eu bod yn brin iawn ar y ffordd o Llandysul i Synod Inn.

**Llandysul** Esboniodd Cyngor Andrew Howell bod aelodau'r clwb pysgota wedi cysylltu ag ef yn mynegi pryderon am y ffaith eu bod yn cael eu dychryn gan gŵn yn gynnar yn y bore. Penderfynwyd cysylltu â'r PCSO.

Atgoffwyd y Cyngor gan Gyng Tom Cowcher o'r Penwythnos Cerdded a gynhelir yn Llandysul, a dosbarthwyd taflenni i'w hysbysebu. Estynnir croeso cynnes i bawb.

**Cyllideb y Cyngor Cymuned** – Cyflwynodd y cleric Cyllideb ddrafft y Cyngor Cymuned i'r Gynghorwyr. Yn dilyn trafodaeth, roedd angen newid rhai penawdau. Bydd y cleric yn ei chyflwyno eto yn ystod y cyfarfod nesaf, i'w chymeradwyo.

**Cinio Nadolig** Penderfynwyd cynnal y Cinio Nadolig Blynnyddol yng Ngwesty'r Porth ar 3

time to see if they could purchase the campus.

**Community Award** It was decided that the clerk send out an electronic copy to all Councillors and they were reminded that all nominations needed to be handed in by the next meeting in October.

### Ward Matters

**Prengwyn** – County Councillor Peter Davies explained that he had been approached by a member of the community wanting to rename a house in Prengwyn Penpwmp and asking for permission to move the water pump situated on the cross roads back to the house it came from. It was decided that this was a matter for the County Council and Cllr Peter Davies would write to the relevant people.

**Pontsian/Capel Dewi** – Cllrs from Capel Dewi explained that they would be holding a public meeting with Welsh Water with regards to the road closure over the summer months in Capel Dewi on Thursday. They also explained that there had been various complaints with overgrown hedges opposite Bro Marlais in Pontsian and at various sites in Capel Dewi. The clerk to write to the County Council.

It was also decided that the clerk write to the County Council asking for more consideration be given when designing new link roads to include lay-by's as they are very scarce on the road from Llandysul to Synod Inn.

**Llandysul** Cllr Andrew Howell explained that he had been approached by members of the fishing club expressing concerns that they are intimidated by dogs early in the morning. It was decided to contact the PCSO.

Cllr Tom Cowcher reminded the Council and handed out promotional flyers to the Walking Weekend in Llandysul. A warm welcome to all.

**Community Council Budget** – The clerk presented the Councillors with a draft Community Council Budget. Following a discussion some headings needed to be changed. The Clerk to re-present it at the next meeting for approval.

**Christmas Dinner** It was decided to hold the Annual Christmas Dinner at the Porth Hotel on the 3<sup>rd</sup> of December. Cllr Beth Davies would book the event with the Hotel.

Rhagfyr. Byddai Cyng Beth Davies yn gwneud y trefniadau archebu gyda'r Gwesty.

## 6) Cydnabod derbyn rhoddion

Canolfan Ddŵr Llandysul - £750 fel y cytunwyd yn flaenorol ar 11/04/16 – ac ysgrifennwyd siec. Gŵyl yr Afon – £2000 fel y cytunwyd yn flaenorol ar 13/06/16 ac ysgrifennwyd siec. Carnifal Llandysul - £500 fel y cytunwyd yn flaenorol ar 13/06/16.

### Gohebiaeth

Negeseuon e-bost – Cyflwynwyd rhestr o'r holl negeseuon e-bost a anfonwyd at y cleric ac a anfonwyd ymlaen at yr aelodau rhwng 11 Gorffennaf ac 11 Medi.

Cafwyd y canlynol gan

**Geredigion:-** Cafwyd llythyr gan Amgueddfa Ceredigion ynghylch Prosiect Dulliau Newydd. Cafwyd poster gan y cydlynnydd Gofal plant a hyfforddiant i hysbysebu Bod yn Warchodwr Plant Cofrestredig.

Cafwyd Hysbysiad o Gadarnhau neu o beidio cadarnhau cadwraeth coed yng Ngelli Gron, Rhydowen.

Cafwyd llythyr yn gofyn am gynrychiolaeth ar Gorff Llywodraethu Bro Teifi. Penderfynwyd y byddai Cyng Eileen Curry yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned.

Cafwyd llythyr yn gofyn am Ganfaswyr Gwasanaethau etholiadol

### ULIC/SLCC/ Clerks and Councils Direct

Cafwyd Cylchgrawn The Clerk a Clerk and Councils Direct.

**GIG Cymru** Cafwyd llythyr Sgwrs Iach ynghylch gweithdai sgwrsio mawr.

**Rheolydd Pensiyau** Cafwyd llythyr gan y Rheolydd Pensiyau ac fe'i rhoddwyd i Gyng Carolyn Reed-Rees

**Theatr Felin-fach** Cafwyd llythyr yn gofyn am rodd gan y Cyngor Cymuned. Roedd y cleric wedi anfon ffurflen gais ymlaen atynt

**Age Cymru Ceredigion** Cafwyd llythyr yn gofyn am rodd ac anfonwyd ffurflen gais ymlaen atynt.

**Mark Williams AS** Cafwyd poster yn nodi dyddiadau cymorthfeydd ym mis Mehefin a

## 6) Acknowlege receipt of donation

Llandsul Aqua Centre - £750 as previously agreed 11/04/16 – and a cheque was written. River Festival – £2000 as previously agreed 13/06/16 and a cheque was written. Llandysul Carnival - £500 as previously agreed 13/06/16.

### Correspondence

Emails –A list of all the emails sent to the clerk and forwarded to members from 11<sup>th</sup> July– 11 September 2016 was tabled.

The following were received from

**Ceredigion:-** A letter was received from Ceredigion Museum regarding New Approaches Project.

Poster from Childcare and training co-ordinator to advertise Becoming a Registered Childminder was received.

Notice of Confirmation or non-confirmation of a tree preservation order at Gelli Gron, Rhydowen was received.

A letter asking for representation on Bro Teifi Governing Body was received. It was decided that Cllr Eileen Curry would be representing the Community Council.

A letter asking for electoral Services Canvassers was received

### OVW/SLCC/ Clerks and Councils Direct

The Clerk Magazine and Clerk and Councils Direct was received.

**NHS Wales** Lets Talk Health letter was received regarding big conversation workshops.

**Pension Regulator** Letter was received from the Pension Regulator and passed to Cllr Carolyn Reed-Rees

**Theatr Felinfach** A letter had been received asking for a donation from the Community Council. The clerk had forwarded an application form

**Age Cymru Ceredigion** Letter asking for a donation was received an application form had been sent.

**Mark Williams MP** A Poster of surgery dates for June and July was received and distributed to members for displaying in the notice boards.

Gorffennaf ac fe'i ddosbarthwyd i'r aelodau er mwyn ei arddangos yn yr hysbysyrrddau.

**Grant Thornton.** Cafwyd Hysbysiad o Gwblhau Archwiliad a gwnaethpwyd penderfyniad unfrydol i'w gymeradwyo a'i dderbyn. Rhaid arddangos yr hysbysiad am gyfnod o 14 diwrnod. Mae modd archwilio'r cyfrifon yng nghartref y Clerc hefyd trwy wneud apwyntiad ymlaen llaw. Roedd un mater wedi codi yngylch tystysgrif i gymeradwyo Adran 3 a'r cam o nodi'r dyddiadau cywir. Nodwyd hyn a phenderfynwyd y byddai mwy o ofal yn cael ei gymryd wrth nodi'r dyddiad ar ddogfennaeth.

Cafwyd cadarnhad bod y cyfrifon ar 30 Mehefin 2016 wedi cael eu harchwilio ac y canfuwyd eu bod yn gywir yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd.

**Nat West** – Cafwyd llythyrau yngylch newid gorchymyn y cyfrif, cyfraddau llog a diweddariad am amodau'r cyfrifon.

**Hags**– Cafwyd llythyr gan Hags yngylch Ardaloedd Gemau Aml-ddefnydd ac fe'i nodwyd.

**J Parkers**– Cafwyd catalog.

#### (Gadawodd Cyngorydd Sir Peter Davies y cyfarfod ar yr adeg hon)

**7 Cynllunio:** Cafwyd hysbysiad o Gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhelir ar 14.09.16. Cymeradwywyd y cynlluniau canlynol dan Awdurdod dirprwyedig ac ni wnaethpwyd unrhyw wrthwynaebiadau iddynt:-

A160384 – Tir ar Fferm Blaencwmerwydd, Horeb, Llandysul

A160598 – Adeiladu uned ddiwydiannol a fyddai'n cynnwys un rhan manwerthu

A160757 Gwaredu amodau 4, 5, 6 a 7 (dŵr wyneb a draeniau) o ganiatâd cynllunio A130250 – Cyn Ysgol Gynradd Tre-groes, Tre-groes, Llandysul

A160671 - Yr Ysgubor, Cwm Meudwy, Llandysul

A160630 – Gwesty'r Porth, Stryd yr Eglwys,

**Grant Thornton.** Notice of Conclusion of Audit was received and unanimously approved and accepted. Notice to be displayed for a period of 14 days. Accounts also available for inspection at Clerks home address by previous appointment. One issue had arisen regarding to the certification of approval of Section 3 and the correct dates being entered. This was noted and resolved that greater care was given when dating documentation.

Confirmation was received that the accounts as at 30 June 2016 have been examined and found to be correct on the information provided.

**Nat West** – Letters were received about account mandate change, interest rates and an update on the terms of the accounts.

**Hags**– Hags letter regarding Multi Use Games Areas was received and noted.

**J Parkers**– Catalogue was received.

(County Councillor Peter Davies left the meeting at this point)

**7 Planning:** Notice of the Development Control Committee Meeting to be held on 14.09.16 was received.

The following plans were approved under delegated Authority, there were no objections:-

A160384 - Land at Blaencwmerwydd Farm, Horeb, Llandysul

A160598 - Erection of an industrial unit along with part retail

A160757 Remove conditions 4, 5, 6 and 7 (surface water and drainage) of planning permission A130250 - Former Tregroes Primary School, Tregroes, Llandysul

A160671 - Yr Ysgubor, Cwm Meudwy, Llandysul

A160630 – The Porth Hotel, Church St, Llandysul

Passed for planning

A160605 - Siop Gomerian, Wind Street, Llandysul

## Llandysul

Pasiwyd dan gynllunio  
A160605 - Siop Gomerian, Stryd y Gwynt,  
Llandysul

---

## 8) Financial Information

### Invoices:-

- ❖① Llinos Jones – Cafwyd anfoneb am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Gorffennaf 2016 a derbynwyd y dylid ei thalu.
- ❖① Mark Wilson – Cafwyd anfoneb am y swm o £907 am y gwaith a wnaethpwyd.
- ❖① Glasdon – Cafwyd anfoneb am brynu bin baw cŵn ar gyfer Capel Dewi a derbynwyd y dylid ei thalu.
- ❖① Neuadd Tysul – Cafwyd anfoneb am y swm o £15 am logi'r ystafell gyfarfod yn Neuadd Tysul a derbynwyd y dylid ei thalu.

❖① Llinos Jones – Invoice for July 2016 translation was received and passed for payment.

❖① Mark Wilson – Invoice was received for work undertaken gor £907.

❖① Glasdon – Invoice for purchasing a dog litter bin for Capel Dewi was received and passed for payment.

❖① Neuadd Tysul – Invoice for £15 for hiring of the meeting room at Tysul Hall was received and passed for payment.

